For English, see other side.

# Marsha P. Johnson

1945 - 1992



Cafodd Martha P. Johnson, neu hefyd fel yr adnabyddid fel 'Black Martha', ei geni yn New Jersey yn yr UDA ond y penodwyd rhywedd gwrywaidd iddi ar ei genedigaeth. Dechreuodd wisgo ffrogiau yn 5 oed ac fel oedolyn ifanc, symudodd i Efrog Newydd lle bu'n gweithio fel drag cwîn a gweithwraig rhywiol. Roedd hi hefyd yn rhan o wrthryfel Stonewall ym 1969 a sbardunodd fudiadau rhyddid cwîar y 1970au. Roedd hi'n ymgyrchwraig dros hawliau hoyw a thraws, a hefyd yn un o sylfaenwyr STAR (Gweithredu Stryd Chwyldroadol Traws). Bu'n dadlau o blaid cleifion AIDS a hithau'n profi'n bositif o HIV ym 1990. Nid yw achos ei marwolaeth yn hysbys i ni hyd heddiw.

Ffynhonnell: y New York Times
Adnoddau pellach: Stonewall, gan David Carter

For English, see other side.

# Oscar Wilde

1854 - 1900



Cafodd Oscar Wilde ei eni yn Nulyn, Iwerddon. Aeth i astudio’r clasuron yng Ngholeg y Drindod Dulyn ac yng Ngholeg y Drindod Dulyn ac yng Ngholeg Magdalene, Rhydychen yn ystod y blynyddoedd 1871 a 1879. Daeth yn ddramodydd, awdur a beirniad poblogaidd yn y 1880-90au. Priododd ei wraig Constance ym 1883 ac yna dechreuodd gael rhyw gyda dynion ym 1886. Ym 1895, cafodd ei farnu yn euog o anwedduster dybryd o dan y Diwygiad Labouchere, ac roedd cael ei garcharu yn ergyd drom ar ei enw da yn sgil hyn. Cafodd ei amser yn y carchar effaith ddrwg ar ei iechyd, a bu farw tair blynedd ar ôl iddo gael ei ryddhau oherwydd iddo ddal haint yn ei glust tra yn y carchar.

Ffynhonnell: Oxford Dictionary of National Biography
Adnoddau pellach: Oscar: A Life, gan Matthew Sturgis.

For English, see other side.

# James Barry

<1800 - 1865



Nid oes cytundeb ar ba flwyddyn y cafodd James Barry ei eni. Dechreuodd Barry gyflwyno ei hun yn wrywaidd yn 10 mlwydd oed. Aeth i'r Brifysgol yng Nghaeredin a graddio ym 1812, a'i gofnodi fel y person ieuengaf erioed i raddio yno fel meddyg meddygaeth. Ymunodd â'r fyddin Brydeinig ym 1818, a gwasanaethodd yn y lluoedd imperialaidd yn Ne Affrica, Jamaica, Crimea a Chanada. Fe'i nodwyd fel llawfeddyg medrus ac ym 1826 llwyddodd i gyflawni toriad Cesaraidd cynnar lle goroesodd y rhiant a'r plentyn. Fodd bynnag, enillodd enw am ei dymer, gan ymladd gornest ym 1818. Aeth i ymddeol yn Lloegr ym 1859.

Ffynhonnell : Oxford Dictionary of National Biography
Adnoddau pellach: James M. Barry, gan Patricia Duncker

Rhybudd: mae'r ddwy ffynhonnell yn cyfeirio at Barry gyda rhagenwau ei/hi.

For English, see other side.

# Ladies of Llangollen

1739 - 1829 (Butler)
1755 - 1831 (Ponsonby)



Gafodd y ddwy eu geni i deuluoedd uchelwrol yn Iwerddon. Symudodd Eleanor Butler a Sarah Ponsonby i Gymru gyda'i gilydd ym 1778. Efallai ar ran Butler, roedd yr ysgogiad i fudo oherwydd bod theulu yn pwyso arni i adael yr ystâd teuluol gan ei bod yn ei 30au a heb ei phriodi. Yn yr un modd, efallai doedd Ponsonby ddim am fyw gyda'i theulu. Yn y pendraw, aethon nhw i ymgartrefu yn Llangollen, lle wnaethon nhw ddenu cryn ddiddordeb yn eu cylch ymysg teithwyr yn ogystal â boneddigion, a hyd yn cael pensiwn oddi wrth Siôr III. Ni phriododd yr un neu'r llall, a cafodd eu claddu gyda'u morwyn, Mary Carryl, yn Llangollen.

Ffynhonnell: Oxford Dictionary of National Biography
Adnoddau pellach: the Ladies of Llangolen, gan Fiona Brideoake

For English, see other side.

# Anne Lister

1791 - 1840



Ganed Anne Lister i deulu tirfeddiannwr yn Halifax, Swydd Efrog, ym 1815 symudodd i Shibden Hall i fyw gyda'i theulu a rhedeg y stad, lle bu'n cynnal pyllau glo a chwareli. Yn ogystal â rhedeg Shibden Hall, teithiodd yn helaeth o amgylch Ewrop a daeth yn eithaf dysgedig trwy astudio'n annibynnol. Roedd ganddi lawer o gariadon benywaidd, gan gynnwys Ann Walker, aeres y bu'n ei charu a'i phriodi (er nad yn gyfreithiol) ym 1834. Cofnodir ei gweithgareddau rhywiol a rhamantus yn ei dyddiaduron. Arhosodd gydag Ann Walker hyd ei marwolaeth.

Ffynonellau: Oxford Dictionary of National Biography,
Borthwick Institute of Archives: “The Story of Anne Lister”
Adnoddau Pellach: Female Masculinity, gan Jack Halberstam
(see index)

For English, see other side.

# Freddie Mercury

1946 - 1991



Cafodd Mercury ei eni yn Zanzibar (Tanzania fodern), symudodd i Loegr ar gyfer uwch addysg. Ym 1970, creodd Queen gyda Brian May a Roger Taylor, y daeth i'w nabod yn y brifysgol. Ymunodd John Deacon â nhw ym 1971. Tua'r amser hwn, cwrddodd â Mary Austin, y bu'n canlyn am saith mlynedd. Ennillodd Queen lwyddiant byd-eang yn y 70au a'r 80au, ac yn ystod y cyfnod hwnnw cadwodd Mercury ddelwedd wefreiddiol ond gwrthod rhag dod allan. Yn ddiweddarach yn ei fywyd, roedd ganddo berthynas hirdymor gyda dyn o'r enw Jim Hutton, a arhosodd gydag ef tan farwolaeth Mercury o AIDS ym 1991.

Ffynonellau: Oxford Dictionary of National Biography, BBC: "Who was the real Freddie Mercury?"
Adnoddau Pellach: Freddie Mercury, gan Lesley-Ann Jones

For English, see other side.

# Cecil Bellfield Clarke

1894 - 1970



Cafodd ei eni yn Barbados, symudodd Clarke i Loegr ym 1914 lle astudiodd feddygaeth yng Nghaergrawnt, gan gymhwyso fel llawfeddyg yn 1920. Yna bu'n ymarfer yn Llundain am flynyddoedd lawer, gan fyw yn yr un tŷ hyd ei oes gyda'i bartner , Edward 'Pat' Walter. Roedd yn nabod WEB DuBois, yn y 1930au a'r 40au, roedd Clarke yn un o sylfaenwyr Cynghrair y Bobl Lliw (LCP) a helpodd i gynllunio ac ariannu cynadleddau i hyrwyddo achosion Pan-Affricanaidd a Duon. Yn ddiweddarach yn ei fywyd, bu ar Gyngor Cymdeithas Feddygol Prydain, ac yn gynghorydd meddygol i lywodraeth Ghana.

Ffynonellau: The Oxford Companion to Black British History,
Under Fire: Black Britain in Wartime, 1939-45, gan Stephen Bourne
Adnoddau Pellach: gweler uchod

For English, see other side.

# Alan Turing

1912 - 1954



Aeth Turing i Brifysgol Gaergrawnt rhwng 1931 a 1934, gan ddod yn gymrawd ar ôl ennill gradd dosbarth cyntaf mewn mathemateg. O'r amser hwn, dechreuodd ddamcaniaethu 'peiriant Turing cyffredinol', rhagflaenydd i gyfrifiaduron digidol modern. Rhwng 1938 a 1945, bu’n gweithio gyda llywodraeth Prydain i ddehongli codau Axisl, gan wneud cyfraniadau sylweddol at chwalu’r cod Enigma. Drwy gydol ei fywyd, roedd ganddo lawer o berthnasoedd rhywiol â dynion eraill, ac fe fu’n gymharol agored am y ffaith. Yn 1952, fe'i cafwyd yn euog am gyfunrywioldeb, a'i orfodi i dderbyn pigiadau estrogen neu gael ei garcharu.

Ffynonellau: Oxford Dictionary of National Biography
Adnoddau Pellach: Alan Turing: the Enigma, gan Andrew Hodges